SEMESTER 2 2021-22

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH
ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

# PAPUR ARHOLIAD
# GW20120 CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL: SAFBWYNTIAU A THRAFODAETHAU

Amser a ganiateir: **24 AWR**

Rhaid i chi gyflwyno’ch ateb mewn un ddogfen i’r man cyflwyno yn Turnitin cyn 12 P.M. (BST) ar y diwrnod ar ôl i'r papur arholiad gael ei ryddhau. Ni fydd gwaith a gyflwynir yn hwyr yn cael ei dderbyn.

Disgwylir i ymgeiswyr ateb **UN** cwestiwn o **BOB ADRAN**. Dylai’r ateb fod yn 1,000 o eiriau yr un (+/-10%). Peidiwch â chyflwyno deunydd rydych wedi’i gyflwyno o’r blaen.

GALL MYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I’R PAPUR HWN YN Y GYMRAEG NEU’R SAESNEG.

## ADRAN A

1. Beth yw cryfderau ymdriniaethau gwladwriaeth-ganolog wrth astudio gwleidyddiaeth ryngwladol? Beth yw eu gwendidau? Dylech gyfeirio at o leiaf ddwy ymdriniaeth ddamcaniaethol yn eich ateb.

2. Yn eich barn chi, pa fanteision y mae'r cysyniad o anarchiaeth yn eu cynnig i'r rhai sy'n ei ddefnyddio? Pa ymdriniaeth sy'n gwneud y defnydd gorau o anarchiaeth? Dylech gyfeirio at o leiaf ddau safbwynt damcaniaethol yn eich ateb.

3. Dewiswch ddigwyddiad (neu bwnc llosg) yng ngwleidyddiaeth y byd cyfoes a'i ddadansoddi o safbwynt o leiaf ddwy ymdriniaeth ddamcaniaethol. Disgrifiwch sut mae’r ymdriniaethau hyn yn ymdebygu i’w gilydd neu’n mynd i gyfeiriadau gwahanol pan gânt eu cymhwyso i’r digwyddiad penodol hwn.

4. Beth yw'r gwahaniaethau allweddol rhwng damcaniaethau y cyfeiriwn atynt yn rhai 'prif ffrwd' a damcaniaethau a elwir yn rhai 'beirniadol'? Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf ddwy ddamcaniaeth ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol.

5. Pa un yw'r cysyniad mwyaf priodol ar gyfer astudio gwleidyddiaeth ryngwladol: system, cymdeithas neu ymerodraeth? Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf ddwy ymdriniaeth ddamcaniaethol.

ADRAN B

1. Mae sawl dull o astudio gwleidyddiaeth ryngwladol yn pwysleisio’r rhan a chwaraeir gan hanes. Ym mha ffordd y mae hyn yn eu cryfhau, a beth yw'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth ymgorffori gwybodaeth am hanes? Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf ddau ddull.

2. 'Mae Cysylltiadau Rhyngwladol fel maes, a'i ddamcaniaethau, yn adlewyrchu mathau penodol o wleidyddiaeth grym.' Trafodwch ystyr a dilysrwydd y datganiad hwn, gan gyfeirio at o leiaf ddwy ymdriniaeth.

3. 'Mae i bob damcaniaeth ddimensiwn normadol, ond dim ond rhai sy'n barod i'w gydnabod.' Trafodwch y datganiad gan gyfeirio at o leiaf ddwy ymdriniaeth ddamcaniaethol.

4. Pa ddamcaniaeth ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol sydd fwyaf argyhoeddiadol yn eich barn chi? Eglurwch y rhesymau a’ch arweiniodd

at y farn hon. Wrth wneud hynny, dylech ei chymharu ag o leiaf un ddamcaniaeth arall.

5. 'Mae rhai damcaniaethau ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol yn canolbwyntio mwy ar gwestiynau athronyddol nag ar geisio deall materion allweddol mewn gwleidyddiaeth ryngwladol go iawn.' Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf ddwy ymdriniaeth ddamcaniaethol.